**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Doyle (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| S J Gallagher | P R Hood-Williams | E J King |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Julie Gosney | Cydlynydd Ymagwedd ar sail Hawliau |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice, L James, E T Kirchner a/ac G J Tanner

---

## 25 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 26 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Diogelu a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2017 fel cofnod cywir.

**Nodwyd** y byddai sylwadau'r Cadeirydd mewn perthynas â'r diwygiadau i adroddiad Cyfansoddiad y Cyngor yn cael eu trafod yng nghyfarfod y cyngor ar 23 Tachwedd 2017. Ychwanegodd fod yr adroddiad yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisïau. Yn amodol ar benderfyniad yng nghyfarfod y cyngor, byddai'r pwyllgor yn trafod sut y mae'n dymuno symud ymlaen yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

## 27 Cyflwyniadau aelodau am gasgliadau o'u hymchwil i'w hardaloedd ac awdurdodau eraill (Llafur)

Dim.

**28 Cyflwyniad - Fforwm Magu Plant Corfforaethol - Rôl a Chyfrifoldebau.**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gyflwyniad manwl ac addysgiadol am Rolau a Chyfrifoldebau Magu Plant Corfforaethol. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Pwy sy'n gyfrifol?
- Y diffiniad 'swyddogol'
- Rôl y prif swyddogion
- Gweithwyr proffesiynol unigol
- 3 rôl allweddol fel aelod etholedig
- Mae'r holl gyfrifoldebau magu plant corfforaethol yn cael eu cyflawni
- Pa mor dda mae'r plant sy'n derbyn gofal yn ei wneud?
- Adborth mae'r cyngor wedi'i dderbyn gan blant a theuluoedd
- Nodi'r hyn y mae angen ei wella a gwneud gwahaniaeth

Roedd y trafodaethau'n ymwneud yn bennaf ag ymgynghori â phobl ifanc; sut mae gwaith y strategaeth yn cael ei gyflawni ar draws yr awdurdod; diogelu ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r awdurdod; pobl ifanc yn cyflwyno i'r Bwrdd Magu Plant Corfforaethol; mentora a ddarparwyd gan blant a oedd yn arfer derbyn gofal; rhoi gwybod i gyrff llywodraethu ysgolion; cyflwyno cynllun gweithredu ar y cyd; nifer y plant sydd wedi cael profiad o dderbyn gofal; a defnyddio cyflwyniad rhith-ysgol ar y we.

**Penderfynwyd**: -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad llafar;
2) Rhannu'r ddolen i'r cyflwyniad ar y rhith-ysgol â'r pwyllgor.

**29 Cyflwyniad - Barn Plant am Wasanaethau - Canlyniadau'r Arolwg Mawr a'r Sgwrs Fawr.**

Rhoddodd y Cydlynydd Ymagwedd ar sail Hawliau gyflwyniad manwl ac addysgiadol am Farn Plant am Wasanaethau – Canlyniadau'r Arolwg Mawr a'r Sgwrs Fawr. Roedd y manylion a ddarparwyd yn cynnwys: -

- Cefndir a Throsolwg
- Dadansoddiad Oed a Rhyw
- Presenoldeb mewn Addysg
- Barn am yr Ysgol – Pethau Gorau/Gwaethaf
- Teimlo'n Ddiogel yn yr Ysgol a Throsglwyddo i'r Ysgol Uwchradd
- Barn a Hawliau Plant
- Cynghorau Ysgol
- Iechyd Cyffredinol, Lles Emosiynol a Meddyliol
- Sigaréts, Alcohol a Chyffuriau
- Iechyd Rhywiol, Addysg Rhyw a Pherthnasoedd
- Barn am Ardal Leol, Diogelwch Cymunedol a Dioddefwyr Troseddau
- Gofalwyr Ifanc

- Bwlio a Cham-drin yn y Cartref

Gofynnodd y cynghorwyr gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad, ac ymatebwyd i'r cwestiynau'n briodol. Roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar ddefnyddio Info-Nation a gweithio mewn partneriaeth ag Info-Nation; disgyblion a ddewiswyd ar gyfer Fforwm Llais y Disgybl; ydy plant yn cwblhau'r arolwg PPI; ysgolion sydd heb gofrestru ar gyfer CCUHP; llywodraethwyr ysgol yn cael mynediad i'r adroddiad a'r arolwg trosgynnol; a mathau o fwlio sy'n digwydd.

**Penderfynwyd**: -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad llafar;
2) Dosbarthu'r cyflwyniad a'r adroddiad i'r pwyllgor.

**30 Cynllun Gwaith 2017-2018.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2017/2018.

Cyfeiriodd at y cyfarfod nesaf ar 20 Rhagfyr 2017 ac amlinellodd y byddai'r pwyllgor yn trafod sut y mae'n dymuno parhau, a fyddai'n llywio'r cynllun gwaith rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2018.

Ychwanegodd fod cyfarfod anffurfiol wedi'i drefnu am 3pm ar
23 Tachwedd i drafod Adolygiad y Gwasanaethau i Oedolion o Strategaethau Comisiynu ar gyfer Anableddau Dysgu, Anableddau Corfforol ac Iechyd Meddwl.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.35 pm

**Cadeirydd**